Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl300

**Amseru: Rheolaidd**

**Teitl: Diwygiad i amser cychwyn a chyllid Brake**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn unol â chofnod penderfyniad DLl269, cymeradwyodd y CHTh gyfraniad o'r gyllideb cronfeydd wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr am beilot 12 mis o Eiriolwr Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol Dyfed-Powys, a fydd yn gweithio'n uniongyrchol â Heddlu Dyfed-Powys o ran cyfeirio dioddefwyr. Mae'r cynnig yn bodloni blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n uniongyrchol.

Mae gwaith ar gyfer cychwyn y prosiect hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers mis Mehefin 2022, ond mae heriau recriwtio wedi arwain at oedi sylweddol gyda chynnydd. Mae cyfle secondiad wedi'i nodi yn awr, a bydd yr unigolyn yn cychwyn y swydd ar 2 Ebrill 2023.

Gan hynny, bydd y cytundeb grant yn cael ei ddiwygio i gychwyn ar 1 Ebrill 2023. Mae'r gyllideb hefyd wedi'i diwygio i gyfrif am heriau chwyddiant a chostau byw ynghyd â hwyluso trefniant secondiad. Y gyllideb ddiwygiedig yw £48,669 ar gyfer y cyfnod 12 mis.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod y cytundeb grant i BRAKE yn cael ei ddiwygio i wobrwyo swm o £48,669 am y cyfnod 12 mis o 1 Ebrill 2023.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 25.05.2023**